



CYNNAL | SUSTAIN
CYMRU | WALES

SWYDD DDISGRIFIAD:

Teitl y swydd:	Cyfarwyddwr Gweithredol
Cyflog:	£50,000 (pro rata) yn ogystal â 5% cyfraniad pensiwn
Hyd:	Contract Parhaol (yn dilyn cyfnod prawf llwyddiannus o 6 mis)
Oriau:	30 – 37.5 awr yr wythnos (opsiwn o 4 i 5 dydd)
Dyddiad dechrau:	Rhagfyr 2019 / Ionawr 2020
Lleoliad:	Baltic House, Sgwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd CF10 5FH
Rheolwr Llinell:	Cadeirydd Bwrdd <i>Cynnal Cymru – Sustain Wales</i>

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 11 Hydref 2019

Dyddiad cyfweld: 28 Hydref 2019

Pwrpas y swydd:

Bydd deilydd y swydd yn chwarae rhan allweddol yn gwthio mlaen agenda cynaliadwyedd yng Nghymru, yn bod yn gyfrifol am arweiniad a rheolaeth lwyddiannus *Cynnal Cymru* a'i gyfeiriad masnachol. Bydd y Cyfarwyddwr yn:

- gweithredu fel pennaeth y sefydliad proffesiynol a gweinyddol, yn darparu arweiniad a chyfeiriad clir i waith *Cynnal Cymru*, gan sicrhau integreiddio a chydlynu gweithgaredd ar draws y sefydliad cyfan;
- bod yn weladwy iawn i'n sefydliadau partner, aelodaeth a chleientiaid o fewn y sectorau preifat, cyhoeddus a thrydedd sector a chymryd cyfrifoldeb dros adeiladu a dyfnhau perthnasau allweddol gyda hwy;
- adeiladu ar ein perthnasau presennol a datblygu rhai newydd gyda'r bwriad o ehangu gweithrediadau masnachol *Cynnal Cymru*, adnabod cyfleoedd newydd, a chydgrynhoi ffrydiau gwaith sy'n bodoli.
- cefnogi a darparu cyngor strategol i'r Bwrdd ar bob mater sy'n berthnasol i'w gylch;
- sicrhau bod gweithgareddau *Cynnal Cymru* yn cael eu gweithredu yn unol â'i gyfansoddiad ac ar drywydd ei wrthrychau a chanlyniadau y cytunwyd arnynt;
- adnabod a gwthio gweithgareddau sy'n cynhyrchu incwm i gynnal a datblygu dyfodol y sefydliad;
- datblygu a rheoli'r berthynas rhwng *Cynnal Cymru* a WCVA o fewn ei Strwythur Grŵp.

DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU

Arweiniad

- cydweithio gyda'r Bwrdd ac aelodau eraill uwch o staff fel bo'n briodol mewn datblygu gweledigaeth a chynllun strategol i arwain y sefydliad yn y ddwy flynedd nesaf yn ystod amser o newid posibl a chyfle;
- meithrin diwylliant sefydliadol sy'n hybu arloesi, datrysiadau creadigol ac acumen busnes fel y norm, yn hybu'n weithredol enw da *Cynnal Cymru* fel ysgogi eiriolwr ac asiant ddosbarthu i ddatblygu cynaliadwy;
- datblygu perthnasau da gyda Llywodraeth Cymru a Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, parhau i gefnogi deddfwriaeth cynaliadwyedd Llywodraeth Cymru;
- cynnal a chynyddu refereniw *Cynnal Cymru*. Bydd hyn yn cynnwys ehangu portffolio gweithgareddau'r sefydliad, parhau gyda'i gyfeiriad masnachol sefydledig yn ogystal â cheisio am ffynonellau priodol eraill o refereniw;
- meithrin gwaith tîm effeithiol gyda'r Bwrdd a'r Cyfarwyddwr Gweithredol, rhwng y Cyfarwyddwr Gweithredol a'r staff a chyda Phrif Weithredwr WCVA;
- cofleidio gwerthoedd craidd *Cynnal Cymru* a bod yn esiampl dda ar draws y sefydliad.

Cynllunio Gweithredol a Rheoli

- goruchwyllo gweithrediad dydd i ddydd effeithlon ac effeithiol *Cynnal Cymru*, a sicrhau bod gwaith y cwmni yn cael ei weithredu yn ôl egwyddorion o reolaeth perfformiad gadarn, a bod cynnydd yn cael ei gynnal yn gyson ac adrodd arno;
- goruchwyllo cynllunio, gweithredu a gwerthuso rhaglenni a gwasanaethau'r sefydliad. Sicrhau bod rhain yn cyfrannu tuag at genhadaeth y cwmni a blaenoriaethau sydd wedi cytuno arnynt. Sicrhau bod egwyddorion a gweithdrefnau effeithiol rheoli prosiect yn cael eu dilyn;
- datblygu a gweithredu cynllun gweithredol blynyddol sy'n ymgorffori nodau ac amcanion sy'n gweithio tuag at gyfeiriad strategol y busnes, a sicrhau bod gweithrediad y cwmni yn cwrdd â disgwyliadau aelodau a phartneriaid *Cynnal Cymru*;
- darparu cefnogaeth i Fwrdd y Cyfarwyddwyr trwy baratoi agendâu cyfarfodydd a deunyddiau cefnogol. Sicrhau fod y Bwrdd yn cael eu hysbysu o ddatblygiad yr agenda datblygu cynaliadwy a materion perthnasol, ac adnabod, asesu ac hysbysu'r Bwrdd o faterion mewnol ac allanol sy'n effeithio'r busnes;
- sicrhau fod *Cynnal Cymru* yn cydymffurfio gyda phob polisi cyfreithiol a chanllawiau wrth iddo gyflenwi gwasanaethau. Goruchwyllo datblygiad ac adolygiad o bolisiau ar gyfer cymeradwyaeth gan y Bwrdd a pharatoi gweithdrefnau i weithredu'r polisiau sefydliadol;
- goruchwyllo trefniant cyfarfod cyffredinol blynyddol y Cwmni, ac adrodd yn ôl ar lwyddiannau'r cwmni a chynlluniau i'r Aelodau;
- rheoli perthnasau gyda chleientiaid mawr, noddwyr a rhoddwyr eraill mawr.

Rheolaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol

- gweithredu fel Swyddog Cyfrifeg ar gyfer yr elusen a'r cwmni. Gweithio gyda Bwrdd y Cyfarwyddwyr i sicrhau darparu cyllidebau blynyddol a gweithdrefnau rheoli ariannol;
- sicrhau bod cadw cyfrifon cadarn a gweithdrefnau cyfrifeg yn cael eu dilyn. Gweinyddu cronfeydd y sefydliad yn unol â'r gyllideb a gymeradwywyd a monitro llif arian parod misol y sefydliad;
- darparu'r Bwrdd gydag adroddiadau cynhwysfawr, rheolaidd ar refeniws a gwariant y cwmni. Sicrhau bod anfonebau ac hawliadau grant yn cael eu cyflwyno ar amser ac ar gyllideb;
- penderfynu ar staffio a gofynion adnodd ar gyfer canlyniadau masnachol gorau;
- goruchwyllo gweithredu polisiau, gweithdrefnau ac arferion adnoddau dynol, a sefydlu amgylchedd bositif, iach a diogel yn unol â deddfwriaeth a rheoliadau priodol;
- gweithredu proses rheoli perfformiad ar gyfer pob aelod o staff sy'n cynnwys monitro perfformiad staff yn gyson a chynnal adolygiad perfformiad blynyddol. Hyfforddi a mentora staff fel y bo'n briodol i wella perfformiad;

Cyfathrebu ac Ymgysylltu

- bod yn eiriolwr effeithiol i *Cynnal Cymru*, cynrychioli ei ddiddordebau ym mhob chwarteri, cyfrannu tuag at ei hygyrdded a'i barch gwell sydd wedi'i gynnal, actio fel llefarydd allweddol i waith cyfryngau ac mewn digwyddiadau pwysig;
- adeiladu ar berthnasau sy'n bodoli eisoes a datblygu rhai newydd gydag ystod o sefydliadau sy'n gydnaws â'n gweithgareddau sydd wedi'u cynllunio, gan hefyd sicrhau fod ein rhaglenni yn parhau i gynhyrchu incwm;
- sefydlu a chynnal perthnasau gweithio da a chynlluniau cydweithredol gyda busnesau, grwpiau cymunedol, cyllidwyr, gwleidyddion, a rhanddeiliaid eraill i helpu i gyflawni nodau'r sefydliad, a'u cadw wedi'u hysbysu;
- helpu i hyrwyddo brand senl, nodedig, llais ac hunaniaeth i *Cynnal Cymru* a'i wasanaethau a chleientiaid yng Nghymru ac i ddsbarthu negeseuon y cwmni i ddylanwadwyr allweddol;
- sicrhau bod gweithgareddau'r cwmni'n dilyn egwyddorion ac arfer dda mewn ymgysylltu â rhanddeiliaid, a thyfu a datblygu aelodaeth mwy egnïol.

MANYLEB PERSON:

	HANFODOL	DYMUNOL
CYMWYSTERAU		Cymwys i o leiaf lefel gradd gyntaf neu gyfwerth a/neu gymhwyster rheoli perthnasol neu reoli hyfforddi a datblygiad y gellir ei ddangos.
GWYBODAETH	<p>Dealltwriaeth wych o ddatblygu cynaliadwy a'i statws yng nghyd-destunau byd-eang, cenedlaethol a lleol;</p> <p>Dealltwriaeth waith a gwerthfawrogiad o nodweddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol Cymru, a bod gan Gymru gymeriad a diwylliant dwyieithog nodedig;</p> <p>Profiad o'r sector fasnachol a chynhyrchu incwm;</p> <p>Dealltwriaeth o werth cyfathrebu digidol a chyfryngau rhwydweithio cymdeithasol.</p>	Profiad o weithio mewn neu ddechrau sefydliad newydd gan gynnwys yr holl agweddau diwylliannol masnachol.
PROFIAD	<p>Profiad arwyddocaol a diweddar o reoli llwyddiannus ar lefel weithredol neu uwch;</p> <p>Profiad o weithio mewn partneriaeth ac ymgysylltu effeithiol gyda sefydliadau ac asiantaethau o bob sector o'r gymdeithas;</p> <p>Profiad fel rheolwr effeithiol o dimau deallus gyda synnwyr cryf o fuddion cydweithio; gan gynnwys ymrwymiad i reoli perfformiad gyda'r gallu i resymoli a sefydlu targedau ac amcanion a diogelu allbynnau a chanlyniadau;</p>	<p>Profiad diweddar llwyddiannus ac arwyddocaol o reoli ar lefel rheolaeth ar lefel weithredol neu uwch yn y sectorau cynhoeddus, preifat neu drydydd sector;</p> <p>Profiad Masnachol</p> <p>Profiad o reoli newid o fewn sefydliad.</p>
SGILIAU	<p>Gallu i addasu, bod yn hyblyg mewn amgylchedd waith sy'n newid gan gynnal effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd;</p> <p>Y gallu i gyfathrebu'n foddhaol trwy gyfrwng y Gymraeg neu ddangos ymrwymiad i ddysgu Cymraeg;</p> <p>Sgiliau sefydliadol gwych gyda'r gallu i gynnig a datblygu llywodraethiant sefydliadol;</p> <p>Y gallu i weithio ar y cyd ac yn effeithiol gydag eraill yn y sefydliad i feithrin gwaith tîm, gosod nodau, datrys problemau, a gwneud penderfyniadau sy'n gwella effeithiolrwydd sefydliadol;</p> <p>Gallu i ddylanwadu'n berswadiol ac ymgysylltu'n effeithiol gydag amrywiaeth eang o gleientiaid a rhanddeiliaid allanol, a gallu i gynrychioli amcanion a diddordebau'r busnes;</p>	

	<p>Gallu wedi'i brofi i ddangos blaengaredd a'r cyfrifoldeb i gael pethau wedi'u gwneud; Gallu i weithio dan bwysau ac i derfynau amser tynn;</p> <p>Ymagwedd greadigol i ddatrys problemau.</p>	
<p>RHINWEDDAU PERSONOL (Arddangosadwy)</p>	<p>Arddull arweinyddiaeth sydd yn greadigol, hygyrch, gweladwy ac hyblyg, sy'n ysbrydoli ymddiriedaeth, parch ac hyder gan eraill;</p> <p>Hunan-ysgogol, hyblyg, addasadwy ac un sy'n gwrthio newid;</p> <p>Datblygwr perthnasau cynhenid, cysylltydd pobl;</p> <p>Sgiliau rhyng-bersonol cryf gyda'r gallu i rwydweithio'n effeithiol ac yn hyderus gyda ffigurau amlwg o sectorau a chefnidiroedd amrywiol (e.e. gwleidyddion uwch, swyddogion llywodraeth, academyddion, pobl busnes arweiniol, arweinwyr y gymuned a llywodraeth leol, ayyb);</p> <p>Dealltwriaeth o ymddygiad moesegol ac ymarferion busnes, gan sicrhau fod ei ymddygiad/hymddygiad ac ymddygiad eraill yn gyson gyda'r safonau hyn ac yn gwneud yn gydnaws â gwerthoedd y sefydliad.</p>	
<p>ARALL (Os gwelwch yn dda noder)</p>	<p>Parodrwydd i deithio gyda pheth gwaith gyda'r nos neu dros nos (bydd 'Time off in Lieu' yn cael ei gynnig).</p>	

GWYBODAETH BERTHNASOL ARALL

Cynaliadwyedd

Rydym yn disgwyl i chi gyflawni cyfrifoldebau eich swydd mewn modd cynaliadwy, gan sicrhau cyn lleied o niwed i'r amgylchedd â phosibl. Ein nod yw sicrhau bod yr holl adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol, yn effeithlon ac yn foesol.

Polisi Iaith Gymraeg

Sefydliad dwyieithog yw *Cynnal Cymru*—Sustain Wales. Wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, byddwch yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal.

Cyfle Cyfartal

Mae Cynnal Cymru wedi ymrwymo i gyfle cyfartal ac mae'n bosibl y bydd yn gallu cynnig trefniadau gweithio hyblyg.

Am mwy o wybodaeth: www.cynnalcyrmru.com/recruitment-director/